# Adroddiad ar gyfer

# Little Acorns at Christ the Word

**Ysgol Gatholig Crist y Gair, Ffordd Cefndy**
**Y Rhyl**
**Sir Ddinbych**
**LL18 2EU**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Little Acorns at Christ the Word

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Little Acorns at Christ the Word |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n gymwys) | Dawn Anderson |
| Person â chyfrifoldeb | Craig Taylor |
| Nifer y lleoedd | 69 |
| Ystod oedran y plant | 2 - 11 |
| Nifer y plant 3 a 4 oed | 12 |
| Nifer y plant sy'n cael cyllid ar gyfer addysg gynnar | 2 |
| Diwrnodau / amseroedd gweithredu | 08.00 i 18.00 yn ystod y tymor a'r gwyliau. |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Ydy |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad hwn yn darparu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 12/12/2019 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Hwn oedd yr arolygiad cyntaf. |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 20/02/2024 |

## Crynodeb

| **Thema** | **Barn** |
|---|---|
| **Llesiant** | **Rhagorol** |
| **Dysgu**<br>**(dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol)** | **Rhagorol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Achosion o ddiffyg cydymffurfio

**Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Datblygu'r ardal awyr agored er mwyn gwella profiadau sy'n ennyn diddordeb y plant ac yn eu herio'n effeithiol ymhellach

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y mae'n bwriadu ymdrin â'r argymhellion.

Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ar ei waith mewn perthynas â hyrwyddo annibyniaeth, i'w chyhoeddi ar eu gwefannau.

## Prif ganfyddiadau

**Llesiant: Rhagorol**

Mae bron pob un o'r plant yn gwneud cyfraniad eithriadol at y ffordd y maent yn chwarae a dysgu. Mae llais y plant yn arbennig o gryf. Maent yn dewis eu hadnoddau eu hunain, sy'n eu galluogi i wneud dewisiadau effeithiol ac i ddatblygu eu chwarae'n dda. Mae bron pob un o'r plant ifanc yn mwynhau gwneud penderfyniadau. Er enghraifft, maent yn torchi eu llewys ac yn golchi a sychu eu dwylo eu hunain heb unrhyw gymorth pan fo'u dwylo'n fudr. Mae'r plant yn penderfynu ble y maent am chwarae a phryd, gan ddefnyddio'r amgylcheddau dysgu dan do ac yn yr awyr agored yn effeithiol. Caiff eu dewisiadau eu parchu gan yr ymarferwyr ac maent yn gwrando ar eu syniadau'n gyson.

Mae'r plant o bob oedran yn setlo'n arbennig o dda ac yn teimlo'n ddiogel wrth iddynt chwarae'n hyderus ochr yn ochr â'u ffrindiau. Mae bron pob un ohonynt yn mwynhau eu chwarae ac yn chwarae'n llawn cyffro â'r teganau moch mewn dŵr budr, gan eu symud wedyn i'r dŵr glân i'w golchi. Mae plant mor ifanc â dwy oed yn llwyddo i gyfleu eu hanghenion yn eithriadol o dda ac maent wedi datblygu eu ffordd eu hunain o gyfathrebu gan ddefnyddio arwyddion dieiriau. Maent yn llwyddo i arddangos eu sgiliau, fel defnyddio'r camerâu i dynnu lluniau o'u ffrindiau. Mae bron pob un o'r plant yn ymuno yn y canu ac yn dangos eu bod yn hapus drwy ganu a dawnsio'n ddigymell wrth aros i frwsio eu dannedd.

Mae'r plant o bob oedran yn rhyngweithio â'i gilydd ac â'r ymarferwyr yn arbennig o dda. Maent yn tynnu lluniau o'u ffrindiau ac yn eu helpu i wisgo sbectolau doniol gan gael llawer o hwyl pan fyddant yn eu gosod wyneb i waered. Mae llawer o'r plant yn hynod garedig a meddylgar tuag at ei gilydd ac yn barod i helpu ei gilydd i wisgo eu cotiau neu roi cyfle i ffrind gael tro ar feic. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt ddiddordeb yn yr hyn y mae eu ffrindiau yn ei wneud ac mae hyd yn oed y plant ieuengaf yn falch gallu dangos ffordd arall o ddod i lawr y llithren. Mae'r plant yn ymwybodol o'r rheolau, fel atgoffa ffrind i beidio â chyffwrdd â'r pâst dannedd wrth aros i frwsio eu dannedd.

Mae bron pob un o'r plant yn weithgar ac yn dysgu drwy chwarae. Maent yn chwilfrydig ac yn arbrofi â dŵr, gan sylweddoli bod y dŵr yn codi'n uwch pan fyddant yn tasgu'n galetach. Mae'r plant yn arbennig o ystyriol, ac mae'n amlwg eu bod wrth eu boddau pan fydd pump o'r plant ieuengaf yn eistedd yn y car. Maent yn cydweithio'n effeithiol iawn hyd nes bod gan bob plentyn yn y car sedd y mae wedi'i dewis a bod pob plentyn yn hapus. Mae'r plant yn mwynhau cyfleoedd i ddatblygu eu cryfder corfforol, fel cario dŵr mewn bwced yn ofalus i olchi'r car.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu annibyniaeth yn dda iawn, gan gynnwys y plant ieuengaf. Maent yn torri llysiau ac yn paratoi melon ar gyfer eu byrbryd heb fawr ddim cymorth. Mae bron pob un o'r plant yn dewis eu byrbryd eu hunain ac yn rhoi'r hyn sy'n weddill yn barod i'w ailgylchu pan fyddant wedi gorffen. Mae pob un o'r plant yn golchi eu platiau a'u mygiau eu hunain ac yn gwybod mai eu gadael wyneb i waered yw'r ffordd orau iddynt ddraenio.

**Dysgu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm dros hyn yw nad oedd digon o blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg a gyllidir yn rhywle arall yn bresennol ar adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb i blant unigol gael eu hadnabod.

**Gofal a datblygiad: Rhagorol**

Mae'r ymarferwyr yn cefnogi iechyd a llesiant y plant yn effeithiol iawn. Maent yn mynychu amrywiaeth addas o gyrsiau ac yn dilyn arferion da mewn perthynas â diogelu plant. Maent yn gwybod beth i'w wneud os bydd ganddynt bryderon am blentyn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Mae'r ymarferwyr yn cymryd sylw arbennig o bob agwedd ar hylendid. Er enghraifft, maent yn gwisgo rhwydenni gwallt a ffedogau i baratoi byrbrydau iach. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod dŵr ar gael i'r plant os na fyddant wedi dod â'u diodydd eu hunain. Maent yn sicrhau y caiff alergeddau'r plant eu cofnodi a'u harddangos gyda llun o'r plentyn er mwyn sicrhau y gall pob un ohonynt fwynhau eu byrbrydau yn ddiogel. Mae'r ymarferwyr yn cadw cofnodion clir ac effeithiol ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni yn gyson. Er enghraifft, maent yn cofnodi anghenion gofal iechyd y plant, eu presenoldeb ac unrhyw fân anafiadau yn glir ac yn gywir, sy'n eu helpu i ddarparu lefel neilltuol o ofal i'r plant.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cymorth rhagorol i'r plant, er enghraifft wrth iddynt gyrraedd y lleoliad. Maent yn rhoi digon o amser i'r plant setlo a chwarae. Mae'r ymarferwyr yn ymddwyn mewn modd meddylgar, hamddenol ac addfwyn â'r plant ac maent bob amser yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol yn effeithiol iawn. O ganlyniad, maent yn cefnogi'r plant ac yn diwallu eu hanghenion unigol yn arbennig o dda. Maent yn siarad ac yn arwyddo â'r plant mewn modd sensitif ac yn eu canmol yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn aml yn defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol. Maent yn canmol y plant am dorri'n dda ac yn dweud wrthynt eu bod yn gryf. Mae hyn yn annog y plant i ddyfalbarhau'n hirach â'u tasg o dorri'r moron. Mae'r ymarferwyr yn cadw llygad barcud ar anghenion y plant, er enghraifft os bydd angen ailglymu carrai eu hesgidiau. Maent yn atgoffa'r plant o reolau syml, fel bod yn ofalus er mwyn peidio â thasgu dŵr dros eu ffrindiau a gwisgo ffedog er mwyn sicrhau na fyddant yn gwlychu. Maent yn gwybod yn reddfol pryd i gamu'n ôl a rhoi cyfle i'r plant ddarganfod pethau drostynt eu hunain.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn arbennig o dda, gan ddefnyddio hiwmor yn aml er mawr boddhad i'r plant hŷn. Mae'r ymarferwyr yn addasu'r ddarpariaeth i ymateb yn effeithiol i anghenion dysgu ychwanegol y plant. Er enghraifft, nid oedd un o'r plant am fynd allan felly arhosodd un o'r ymarferwyr y tu mewn yn gwmni iddo, gan chwarae fferm gyda'r plentyn, gan wneud iddo deimlo'n ddiogel ac yn hapus. Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn eithriadol o dda. Maent yn cwblhau proffil un dudalen er mwyn nodi unrhyw anghenion ychwanegol ac yn ymweld â'r plant yn eu cartrefi cyn iddynt ddechrau yn y lleoliad. Mae hyn yn sicrhau y gallant ddarparu lefel eithriadol o ofal iddynt. Mae'r ymarferwyr yn gwybod pryd y dylent ymuno neu ymyrryd er mwyn cynnig help. Maent yn nodi

cyfleoedd addysgu yn effeithiol, er enghraifft drwy ofyn iddynt beth y gallant ei glywed ac wedyn gwrando ar yr adar yn canu.

**Addysgu ac asesu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol): Rhagorol**

Mae gan yr ymarferwyr gydberthynas gynnes llawn hoffter â'r plant, ac maent yn eu trin â gofal a pharch. Maent yn adnabod y plant yn arbennig o dda ac yn defnyddio eu gwybodaeth am ddatblygiad plant yn effeithiol i'w helpu i wneud cynnydd o'u mannau cychwyn.

Caiff egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru eu hadlewyrchu'n gryf iawn yn ansawdd ymarfer yr ymarferwyr â'r plant. Maent yn creu amgylchedd dysgu dan do diddorol sydd wedi cael ei gynllunio'n ofalus i feithrin sgiliau'r plant yn effeithiol drwy chwarae. Mae'r ymarferwyr yn ymateb yn fedrus i ddiddordebau a galluoedd y plant er mwyn darparu profiadau dysgu ystyrlon. Er enghraifft, yn dilyn diddordeb diweddar y plant mewn ffermydd, ychwanegodd yr oedolion gerbydau fferm ac anifeiliaid fferm at yr ardal adeiladu.

Mae'r ymarferwyr yn fodelau rôl da iawn o ran iaith ac maent yn gwybod pryd y dylent ymyrryd er mwyn ehangu geirfa'r plant. Maent yn meithrin sgiliau creadigol a sgiliau rhifedd y plant yn llwyddiannus drwy brofiadau gwerthfawr a dilys, fel gweithgareddau chwarae rôl. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr wrth eu boddau yn ymuno â'r plant i chwilio am uwcharwr ac yn defnyddio iaith leoliadol syml i ddisgrifio lle y gallai'r uwcharwr fod yn cuddio.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod cyfleoedd o ansawdd uchel ar gael i'r plant feithrin eu sgiliau llythrennedd. Mae ardal lyfrau gyfforddus lle mae'r ymarferwyr yn darllen straeon i'r plant mewn modd cynnes a brwdfrydig. Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd gwerth chweil i'r plant feithrin eu sgiliau gwneud marciau, gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau fel sialc, brwshys paent o wahanol faint a phinnau ffelt.

Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i'r plant ddefnyddio cyfarpar digidol wrth chwarae. Er enghraifft, wrth chwarae ar liniadur, mae'r plant yn modelu'r dull hunangofrestru drwy alw enwau'r plant eraill a'u gwahodd i ateb yn Gymraeg.

Mae'r ymarferwyr yn gweithredu mewn ffordd gyson, hynod fedrus wrth reoli ymddygiad y plant. O ganlyniad, ceir ethos hapus a digynnwrf. Mae'r ymarferwyr yn datblygu sgiliau cymdeithasol y plant yn effeithiol iawn. Maent yn annog y plant i fod yn garedig ac i rannu adnoddau.

Mae'r ymarferwyr yn helpu'r plant i feithrin ymdeimlad o syfrdandod a rhyfeddod yn effeithiol. Maent yn cynnig cyfleoedd i'r plant oruchwylio a gofalu am y falwoden dir fawr y maent yn ei chadw fel anifail anwes. Maent yn annog y plant i archwilio eu hamgylchedd ac mae'r plant wrth eu boddau yn trafod y trychfilod y maent yn dod o hyd iddynt y tu allan gyda'r ymarferwyr.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o amrywiaeth yn y byd ehangach drwy ddathlu gwyliau fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Maent yn sicrhau y caiff cynrychiolaeth amrywiol a gwirioneddol ei chynnig drwy lyfrau straeon ac yn eu hamgylchedd dysgu. Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo treftadaeth

ddiwylliannol Cymru drwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen. Caiff arteffactau o Gymru eu harddangos yn bwrpasol o amgylch y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn dda iawn, gan ddefnyddio ymadroddion Cymraeg syml wrth ryngweithio â'r plant. Defnyddir caneuon a hwiangerddi Cymraeg yn effeithiol i gefnogi arferion, er enghraifft yn ystod amser tacluso neu pan fydd y plant yn brwsio eu dannedd.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu ymdeimlad cryf o berthyn yn eu cymuned. Er enghraifft, maent yn trefnu ymweliadau buddiol â'u hardal leol i'r plant ac mae lluniau o dirnodau lleol i'w gweld yn y lleoliad. Maent hefyd yn arddangos lluniau o deuluoedd y plant er mwyn helpu i greu ymdeimlad pellach o berthyn.

Mae'r ymarferwyr yn ymgymryd â gwaith cynllunio fel tîm, sy'n effeithiol iawn o ran cynnig cyfleoedd dysgu sy'n llwyddo i ennyn diddordeb y plant. Maent yn defnyddio arsylwadau gwerthfawr i gynllunio camau dysgu nesaf y plant mewn ffordd bwrpasol ac i wneud newidiadau buddiol yn yr amgylchedd. Er enghraifft, yn dilyn diddordeb diweddar y plant mewn defnyddio siswrn, mae'r ymarferwyr yn rhoi cyfleoedd pellach iddynt feithrin eu sgiliau echddygol manwl yn effeithiol. Maent yn darparu amrywiaeth o adnoddau, gan gynnwys mathau gwahanol o sisyrnau, papur, cyfarpar gwneud marciau a glud.

Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd digonol yn yr amgylchedd awyr agored i'r plant feithrin eu sgiliau corfforol. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr bob amser yn cynllunio'n ddigon da i gynnig profiadau dysgu buddiol i'r plant yn yr ardal awyr agored. Mae'r ymarferwyr yn darparu gwybodaeth fuddiol i'r rhieni a'r gofalwyr am ddatblygiad eu plant ar lafar, mewn llyfrynnau cynnydd ac ar lwyfan cyfryngau cymdeithasol diogel.

**Yr Amgylchedd: Da**

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel i'r plant, gan gynnwys gwneud yn siŵr bod yr adeilad yn ddiogel a bod y plant yn cael eu goruchwylio'n dda. Mae'r asesiadau risg o'r safle ac oddi ar y safle yn nodi unrhyw beryglon posibl yn effeithiol ac yn cadw'r plant yn ddiogel, gan gynnwys llunio taflen ar gyfer y daith pan fyddant yn ymweld â'r traeth neu'r castell. Mae'r arweinwyr yn cadw cofnodlyfr glanhau dyddiol ac yn rhoi sylw effeithiol i reoli heintiau. Maent yn sicrhau bod y lleoliad yn lân ac yn gweithredu lefel effeithiol o hylendid dyddiol. Maent yn cynnal ymarferion tân rheolaidd ac yn eu cofnodi, sy'n dangos bod yr arweinwyr a'r ymarferwyr yn ymwybodol o sut i wagio'r adeilad yn ddiogel mewn argyfwng.

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd chwarae a dysgu effeithiol ac mae digon o le i symud o gwmpas. Maent yn arddangos darnau o waith y plant er mwyn rhoi ymdeimlad o gyflawniad ac o berthyn iddynt. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y lleoliad yn drefnus er mwyn darparu ardal lle mae gweithgareddau ac ardaloedd y ddarpariaeth ar gael yn gyfartal i bob plentyn. Mae'r arweinwyr yn gwneud yn siwr bod y plant yn cael gofal da mewn amgylchedd dysgu cefnogol a chyfforddus, sy'n ystyried diddordebau'r plant a'u hanghenion unigol yn dda.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod amrywiaeth o adnoddau a chyfarpar o ansawdd da, sydd wedi'u hailgylchu gan fwyaf, ar gael yn hawdd i'r plant, fel bwrdd a chadeiriau wedi'u creu o gewyll pren. Mae ffrwythau ar gyfer paratoi byrbryd, blodau ar gyfer

tynnu lluniau llonydd, tywod a dŵr yn cynnig adnoddau da ac effeithiol ar gyfer gweithgareddau chwarae synhwyraidd a darganfyddol. Yn yr awyr agored, mae'r arweinwyr yn darparu rhannau rhydd ar gyfer adeiladu, tybiau ar gyfer plannu a chegin fwd sy'n cynnwys offer, potiau a sosbenni metel. Mae tostiwr a microdon sydd wedi cael eu dadgomisiynu yn ychwanegu elfen bywyd go iawn at weithgareddau chwarae'r plant. Mae'r arweinwyr yn darparu ardaloedd i'r plant gydbwyso, llithro a phalu, sy'n hawdd eu cyrraedd ac yn eu galluogi i feithrin eu sgiliau corfforol. Mae'r arweinwyr yn adlewyrchu cymuned amrywiol yn effeithiol gan ddefnyddio ffigyrau a straeon a thrwy ddathlu traddodiadau gwledydd gwahanol. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio adnoddau yn effeithiol i ennyn diddordeb parhaus y plant, er enghraifft drwy roi powdr siocled mewn dŵr i greu dŵr budr ar gyfer y teganau moch. Mae'r arweinwyr yn darparu byrddau a chadeiriau pren digon isel a matiau addas fel rhan o amgylchedd taclus sy'n galluogi pob plentyn i weithio ar lefel o'i ddewis a mwynhau chwarae a dysgu gyda'i gilydd.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol**

Mae'r arweinwyr yn hynod frwdfrydig ac yn teimlo'n angerddol am waith y lleoliad. Maent yn rheoli ac yn cefnogi'r staff yn eithriadol o dda a cheir diwylliant cryf iawn o gydweithio yn y lleoliad. O ganlyniad, mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn cydweithio'n arbennig o dda fel tîm, sy'n creu ethos cadarnhaol, hapus a gofalgar.

Mae'r arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel iddyn nhw eu hunain ac i'r ymarferwyr. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn effeithiol iawn wrth gefnogi llesiant, dysgu a chwarae'r plant. Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad, sy'n seiliedig ar werthoedd Cristnogol ac a gaiff ei hadlewyrchu yn eu datganiad o ddiben.

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn defnyddio amrywiaeth o systemau hunanwerthuso mewn ffordd effeithiol iawn i adolygu eu gwaith. O ganlyniad, maent yn hyderus eu bod yn gwybod beth mae'r lleoliad yn ei wneud yn dda ac y gallant nodi'r meysydd y mae angen eu gwella. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn defnyddio gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau i lunio adroddiad hunanwerthuso ac i ddatblygu cynllun effeithiol ar gyfer gwella'r lleoliad. Caiff yr arweinwyr hefyd eu cefnogi gan amrywiaeth o bartneriaid sy'n eu helpu i werthuso a gwella ansawdd y ddarpariaeth a chanlyniadau'r plant yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn gweithio ochr yn ochr ag ymarferwyr o'r ysgol leol i ddatblygu ansawdd yr amgylchedd chwarae a dysgu a'r ddarpariaeth ar gyfer y plant ymhellach. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn gwerthfawrogi'r holl gymorth a chyngor a roddir iddynt yn fawr ac yn eu defnyddio fel rhan o'u prosesau hunanwerthuso.

Mae'r arweinwyr yn defnyddio'r grantiau sydd ar gael mewn ffordd ddoeth iawn i brynu adnoddau i gefnogi profiadau dysgu'r plant, i wella'r amgylchedd ac i ddarparu hyfforddiant perthnasol i'r ymarferwyr. Er enghraifft, gwnaethant ddefnyddio Grant Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar mewn modd pwrpasol i gefnogi sgiliau lleferydd ac iaith y plant.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau defnyddiol a manwl ar waith er mwyn helpu'r ymarferwyr i gadw'r plant yn ddiogel. Mae'r arweinwyr yn ystyried y rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol wrth adolygu polisïau a gweithdrefnau. Mae gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith ar gyfer recriwtio staff a sicrhau addasrwydd y staff. Caiff yr ymarferwyr eu gwerthfawrogi'n fawr ac

mae'r arweinwyr yn blaenoriaethu llesiant y staff. Mae'r arweinwyr yn cefnogi'r ymarferwyr yn effeithiol drwy gynnal arfarniadau a sesiynau goruchwylio rheolaidd.

Mae'r arweinwyr yn rhoi cryn bwyslais ar ddatblygu tîm o ymarferwyr hynod fedrus. Maent yn sicrhau y gall pob ymarferydd ymgymryd ag amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddiant defnyddiol sy'n ei alluogi i gael yr hyfforddiant diweddaraf a meithrin ei sgiliau. Mae'r arweinwyr wedi gweithio mewn partneriaeth â thîm blynyddoedd cynnar yr awdurdod lleol a lleoliadau eraill yn yr ardal i roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith yn llwyddiannus ac i rannu arferion effeithiol â lleoliadau eraill.

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr wedi meithrin partneriaethau rhagorol â'r rhieni a'r gofalwyr. Maent yn trefnu ymweliadau â chartrefi'r plant cyn i lawer ohonynt ddechrau yn y lleoliad. Maent yn defnyddio ap rhianta yn effeithiol i rannu arsylwadau ar y plant ac i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwasanaeth. Mae gan yr arweinwyr bolisi drws agored, sy'n galluogi'r rhieni a'r gofalwyr i siarad â'r staff bob dydd. Gall y rhieni a'r gofalwyr ymweld â'r lleoliad bob tymor i drafod cynnydd eu plant. Mae'r arweinwyr yn rhoi trefniadau pontio effeithiol ar waith sy'n helpu'r plant i symud yn hyderus i'w lleoliad addysg gynradd.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac ar wefannau AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa pedwar pwynt:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac ymarfer parhaus cryf iawn |
| **Da** | Llawer o gryfderau, heb unrhyw feysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae'r cryfderau yn gwrthbwyso'r gwendidau ond mae angen gwneud gwelliannau |
| **Gwael** | Mae gwendidau pwysig yn gwrthbwyso'r cryfderau ac mae angen gwneud gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg (o'r Saesneg i'r Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod y gwneir hynny'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a nodi teitl yr adroddiad.

Dyddiad cyhoeddi: 25/04/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |
| | Regulation 30: Keeping Records | Cyflawnwyd |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 25 Ebrill 2024